Chwarae Teg® Solutions

Gweithleoedd Cynhwysol? – Sut i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau yn eich gweithle

Diben

Bydd y seminar yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am fenywod yn y gweithle, y Ddeddf Cydraddoldeb newydd a pham y mae'n rhaid parhau i ystyried persbectif rhyw a sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y gweithle. Bydd yn eich galluogi i edrych ar eich sefydliad a'ch arferion gwaith i weld a oes cyfleoedd, lle'n briodol, i ymyrryd yn uniongyrchol er mwyn mynd i'r afael â chydbwysedd rhwng y rhywiau a datblygu rhaglenni rhyw-benodol.

Sut fyddwch chi'n elwa

Bydd y seminar yn ystyried beth yw Cydraddoldeb Rhywiol yn y gweithle a pham y dylem barhau i'w hystyried hi'n angenrheidiol i sicrhau cydbwysedd. Bydd hefyd yn eich helpu i ystyried pryd y mae angen i chi gyflwyno gwasanaethau rhyw-benodol a beth yw eich cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Beth fyddwch chi'n ei ddysgu

- Beth yw Cydraddoldeb Rhywiol a pham y dylem barhau i'w ystyried yn angenrheidiol yn ein gweithle
- Pryd fydd angen i chi gyflwyno gwasanaethau rhyw-benodol
- Sut i sicrhau bod materion cydraddoldeb rhywiol yn cael eu prif ffrydio drwy'r holl bolisïau a darpariaeth gwasanaeth

Hyd
2 awr

Ffi
£60.00 + TAW

Gallwn deilwrio'r cwrs yma i ateb gofynion arbennig eich sefydliad a gallwn ei redeg lle bynnag fydd hwylusaf i chi.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â atebion@chwaraeteg.com neu galwch 029 2047 8900 neu ewch i'r wefan http://www.cymraeg.chwaraeteg.com/atebion